ASCL Cymru



# Arwain y Ffordd: Glasbrint ar gyfer System Addysg Hunanwelliant yng Nghymru

**Awdur:**

**Leora Cruddas** Cyfarwyddwraig Polisi ASCL

Awst 2015

"Yna canodd Taliesin: Mae ansawdd mewn dŵr sydd wedi'i fendithio"

"Arweinwyr addysg ar bob lefel yn cydweithio mewn system hunanwelliant sydd yn darparu cefnogaeth a her ar y cyd i godi safonau mewn ysgolion."
Huw Lewis, Hydref 2014

# Cynnwys


Rhagair: Ein taith tuag at system addysg ardderchog 4

Egwyddorion sydd yn sail i'n glasbrint 6

Golwg o'r dyfodol – gweledigaeth a osodwyd yn 2020… 7

Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru wedi'u hamlinellu'n glir 8

Elfen Un: Adeiladu cyfalaf proffesiynol 9

Elfen Dau: Cwricwlwm, asesu a chymwysterau 12

Elfen Tri: Cyllido a datganoli 15

Elfen Pedwar: Atebolrwydd 17

Elfen Pump: Craffu, ymyrraeth a chefnogaeth 19

Elfen Chwech: Arweinyddiaeth a llywodraethu 20

Ôl-sgript 22

Atodiad A: Pensaernïaeth system hunanwelliant yng Nghymru 23

# Rhagair: Ein taith tuag at system addysg ardderchog

Gweledigaeth ydy'r glasbrint a ysgrifenwyd o safbwynt dyfodol dychmygus – mae'n naratif sydd yn edrych yn ôl o'r fan manteisiol yma ar y camau y gallwn fod wedi eu cymryd ar ein taith tuag at y dyfodol yma. Felly,mae'n gronicl ac yn gynllun. Fel cronicl, dylem dybio bod rhai rhannau wedi eu cam gofio – neu o leiaf y mae wedi ei nodi yn fwy syml na'r hyn y gallai'r gwir fod mewn gwirionedd. Fel cynllun, mae'n debygol o fod yn amherffaith, yn gwneud i broblemau anodd ymddangos yn rhy syml. Mae'n ceisio uno rhai dotiau ar y gorwel sydd efallai yn cydgyfeirio a sbarduno'r system i wynebu problemau nad ydyn nhw hyd yn hyn wedi cael eu trafod yn llwyddiannus.

Rydym eisiau system addysg yng Nghymru lle mae pobl plentyn a pherson ifanc yn cyflawni. Credwn y gallwn gael system addysg ardderchog sydd yn darparu ansawdd ac addysg i bob myfyriwr. Fe fydd hyn yn golygu dychymyg, dewrder a gweithredu ar y cyd. Mae ein glasbrint yn nodi gweledigaeth ar gyfer system addysg Cymru. Ac wrth ei galon y mae adeiladu gallu – gallu arweinyddiaeth, gallu addysgol a'r gallu i greu ac i weithredu.

Gwyddom bod arweinyddiaeth yn llawer rhy aml yn ôl-ystyriaeth i ddiwygiadau addysg.[1] Mae'r Corff dros Gydweithredu a Datblygu Economaidd (OECD) yn datgan bod diwygiadau gwirioneddol yn galw am sylw parhaol gan nifer o bobl ar bob lefel o'r system addysg. Dydy hi ddim yn ddigon i lywodraeth fod yn llwyr ymrwymedig – mae synnwyr o synergedd a phwrpas cyffredin yn dibynnu ar allu a chydweithrediaeth gweithredol arweinyddion ar draws y system.[2]

Rydym yn cydnabod bod yna rai heriau sylweddol ac unigryw i Gymru. Mae gan Gymru ganran mawr o fyfyrwyr sydd yn perfformio'n isel a chanran llai o fyfyrwyr sydd yn perfformio'n uchel. Yn ychwanegol at hyn, mae gennym boblogaeth amrywiol o fyfyrwyr – a dydy anghenion pob un ddim yn cael eu diwallu.[3] Mae'r OECD wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu gweledigaeth hir dymor ar gyfer addysg, a datblygu gweledigaeth ar y cyd o'r dysgwr, yn adeiladu cyfalaf proffesiynol ac yn *trin arweinyddiaeth system fel prif sbardun diwygio addysg*.[4]

Credwn bod arweinyddiaeth system yn fwy nag arweinyddiaeth sefydliadol yn unig – mae'n arweinyddiaeth y system addysg ei hun. Mae arweinyddiaeth addysgol yn cynnwys aweinyddiaeth ardal neu arweinyddiaeth grwpiau o ysgolion, ond nid yw wedi ei ddiffinio gan hynny. Credwn bod rhaid i gam nesaf y daith o welliant yng Nghymru gael ei ddiffinio gan arweinyddiaeth system.

Mae ein glasbrint wedi ei seilio ar dystiolaeth – mae'n wynebu gwendidau ym mherfformiad y system addysg Gymreig. Mae'n adeiladu ar dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol, yn cynnwys adroddiadau OECD a McKinsey. Mae *How the World's Most Improved School Systems Keep Getting Better* [5] yn dweud wrthym bod y daith at dda yn cynnwys canolbwyntio'n llwyr ar siapio'r proffesiwn. Mae'r daith hon hefyd yn cynnwys cadarnhau a rhesymegoli sylfeini'r system, cynhyrchu data perfformiad o ansawdd uchel, system gref a diogel o atebolrwydd ysgolion a chyllido priodol, strwythurau trefnyddol a modelau addysgol. Mae ein glasbrint yn delio gyda phob un o'r rhain. Ond addysgu a dysgu ydy'r man cychwyn bob tro [6] – dyna pam bod ein glasbrint yn cychwyn yma.

Rydym yn uchelgeisiol – credwn bod ein system ar ei ffordd i ragoriaeth. Mae adroddiad McKinsey yn datgan bod y daith i ragoriaeth yn nodi'r pwynt lle daw'r system ysgolion i ddibynnu yn bennaf ar werthoedd ac ymddygiad ei addysgwyr i lywio gwelliant parhaus. Mae'r ffocws yn symud oddi wrth gyfeiriad canolog (neu 'orfodi digonolrwydd') i 'ryddhau mawredd' yn yr ysgolion eu hunain – gweithio'n gydweithredol i wella ansawdd athrawon sydd yn dod i mewn i'r proffesiwn ac athrawon cyfredol, meithrin dysgu cymheiriaid mewn ysgolion a rhwng ysgolion, annog arloesi i ddarganfod arferion arwain yn y dyfodol ac yn y pen draw, perchnogaeth y proffesiwn o ddeilliannau ac ansawdd addysg.

Mae yna wahaniaeth pwysig rhwng system hunanwelliant a system wedi'i harwain gan ysgolion. Wrth gwrs mae'n bosibl nad ydy system wedi'i harwain gan ysgolion yn un sydd yn gwella. Mae hefyd yn bosibl bod system wedi'i harwain gan ysgolion yn un sydd yn hunanwasanaethu yn hytrach nag yn un hunanwelliant. Yn ôl diffiniad mae system hunanwelliant yn un sydd wedi'i harwain yn gryf gan ysgolion, a Llywodraeth Cymru yn gyfreithiol gyfrifol am benderfynu ar y fframweithiau safonau a rheoleiddiol i ddibenion atebolrwydd. Mae gan system hunanwelliant reoliadau sicr sydd yn gweithredu fel amddiffynfa yn erbyn hunan-les.

Wrth inni gymryd y cam sylweddol yma tuag at esbonio a rhoi diffiniad i system hunanwelliant, mae'n bwysig ein bod yn rhoi ystyriaeth gofalus i'r cyfyngiadau sydd yn gweithio yn ei erbyn. Mae'r haen ganol yn broblem sydd wedi'i hamlygu mewn sawl adroddiad.[7] Rydym yn gwneud rhai cynigion penodol i ddelio gyda hyn, adeiladu ar waith y consortia. Ni fydd ein cynigion yn hawdd i'w gweithredu, ond maen nhw'n bosibl yng nghyd-destun polisi ehangach diwygiadau llywodraeth leol, os ydy Llywodraeth Cymru yn barod i ddal ar y cyfle a gweithredu gyda dewrder a gonestrwydd.

---

1 Hargreaves and Shirley, 2009, cited in Schleicher, A. 2014, *Improving Schools in Wales: An OECD perspective,* OECD
2 Schleicher, A. 2014, Improving Schools in Wales: An OECD perspective, OECD, p. 79
3 Schleicher, A. 2014, *Improving Schools in Wales:* An OECD perspective, OECD.
4 Ibid, page 8-9 and Hargreaves, D. *A Self-Improving School System: towards Maturity* http://dera.ioe.ac.uk/15804/1/a-self-improving-school-system-towards-maturity.pdf
5 Barber. M. and Mourshed, M. and Chikioke, C. 2010, *How the World's Most Improved Systems Keep Getting Better,* London, McKinsey & Company.
6 Schleicher, A. 2014, *Improving Schools in Wales: An OECD perspective,* OECD, p. 121.
7 Notably Hill, 2013 and Schleicher, 2014.

Fe fydd addysg bob amser yn flaenoriaeth wleidyddol oherwydd swm yr arian cyhoeddus sy'n cael ei wario arno ac oherwydd ei fod yn fuddsoddiad allweddol yn ffyniant a llesiant y genedl yn y dyfodol. Mae'r OECD yn glir bod delio gydag ansawdd a chydraddoldeb system addysg gwlad yn gallu helpu i ffurfio ei dyfodol.[8]

Rydym yn deall y dylai fod dimensiwn gwleidyddol i addysg. Rydym hefyd yn gweld rôl mwy strategol i Lywodraeth Cymru. Rôl llywodraeth ydy symud rhwystrau a chreu amodau ar gyfer system hunanwelliant. Fe fydd hyn yn galw am ymrwymiad gan wleidyddion i ail greu eu perthynas gyda'r proffesiwn fel bod modd i ail gam y system hunanwelliant ymddangos. Fe fydd angen i Lywodraeth Cymru ymrwymo i symud oddi wrth ddull o weithredu canolog o'r brig i lawr na all ond annog ffordd o feddwl sydd yn cydymffurfio yn hytrach na rhyddhau mawredd yn y system.


Mewn gwirionedd, credwn bod Llywodraeth Cymru yn barod i wneud hynny. Dyna pam ein bod yn cydnabod datganiad uchelgeisiol Huw Lewis, Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn y rhagair i'n glasbrint.

Mae ein glasbrint yn cynrychioli awydd cryf ymysg professiwn arweinwyr ysgolion a cholegau i wynebu'r heriau. Wynebu'r ffeithiau a gweithio gyda llywodraeth ddewr sydd yn meddwl ymlaen i ddatrys y problemau a rhyddhau system addysg ardderchog.

Rydym yn cydnabod bod yna newid sylweddol wedi bod yn y system a bod y glasbrint yn rhagweld rhagor o newid ar adeg pan fo'r sector addysg yng Nghymru wedi blino ar newid. Y gwahaniaeth allweddol rhwng rhaglenni diwygio blaenorol a feirniadwyd gan OECD a'r newidiadau yr ydym ni yn eu hamlinellu ydy'r symudiad o'r llywodraeth yn arwain y newid i'r proffesiwn ei hun yn arwain y newid.

Mae'r glasbrint yma yn siarad yn fwriadol gydag ysgolion ac arweinwyr ysgolion – cynradd, uwchradd ac arbennig. Er hynny, mae ei egwyddorion a'i weledigaeth yn berthnasol i'r sector addysg cyfan yng Nghymru o'r blynyddoedd cynnar i addysg ôl 16 a phellach. Mae'r nifer cymharol uchel o weithrediadau i arweinwyr ysgolion yn adlewyrchu symudiad o asiantaeth a phŵer yr ydym yn credu sydd yn amod angenrheidiol i weld system hunanwelliant yn ymddangos.

Mae hi bellach yn amser i'r proffesiwn o arweinwyr ysgolion gamu ymlaen a chydio yn yr her arweinyddiaeth yma. Y cam nesaf mewn arweinyddiaeth system ydy diffinio sut y mae system hunanwelliant o'r radd flaenaf yn edrych,ac yna symud yn gyson ac yn benderfynol tuag ati. Dyna pam y mae Cymdeithas Arweinyddion Ysgolion a Cholegau (ASCL) wedi cyhoeddi glasbrint ar gyfer system hunanwelliant yng Ngymru – ein taith tuag at ryddhau mawredd yn addysg Cymru.



**Eithne Hughes** ASCL Arlywydd Cymru



**Ravi Pawar** ASCL Cymru Is-lywydd



**Maria Rimmer** ASCL Cymru Cyn Lywydd Uniongyrchol

8 Schleicher, A. 2014, *Improving Schools in Wales: An OECD perspective*, OECD, p. 5.

# Egwyddorion sydd yn sail i'n glasbrint

**Credwn bod yr egwyddorion canlynol yn sylfaenol i gychwyn mawredd yn ein system addysg:**

- **Ansawdd a chydraddoldeb**: Mae addysg dda i bawb yn egwyddor canolog i'n glasbrint. Credwn y gall pob plentyn a pherson ifanc gyflawni. Rydym yn gwrthod y ffaith bod cefndir cymdeithasol neu ddeallusrwydd canfyddedig yn penderfynu hynny.
- **Atebolrwydd**: Y ffurf uchaf o atebolrwydd ydy atebolrwydd proffesiynol yr unigolyn dros ansawdd ei waith ei hun ac i 'r bobl y mae'r proffeswin yn eu gwasanaethu. Mewn system hunanwerthuso, credwn bod rhaid i athrawon ac arweinwyr fod yn asiantwyr eu hatebolrwydd eu hunain. Rôl y wladwriaeth ydy penderfynu ar fesurau atebolrwydd er budd rhieni a'r gymuned ehangach, annog polisïau ac ymddygiad sydd yn cyfrannu at addysg o ansawdd uchel i bawb. Mae rôl cyrff llywodraethu mewn dal ysgolion a'u harweinwyr i gyfrif yn ganolog i system hunanwerthuso.
- **Sybsidiaredd**: Credwn y dylai gwneud penderfyniadau gael ei ddatganoli i'r lefel mwyaf uniongyrchol yn gyson gyda'i weithrediad ac i'r man sydd agosaf i fyfyrwyr, fel ysgolion. Mewn system llae mae sybsidiaredd yn norm, rhaid cael atebolrwydd cryf a deallus. Felly, mae sybsidiaredd ac atebolrwydd yn egwyddorion dwbl.
- **Tystiolaeth**: Credwn bod yna angen am system gref fel bod modd ei llywio gan arbenigedd proffesiynol i wella ansawdd arfer a deilliannu i fyfyrwyr. Dylai polisi ac arfer gael eu llywio gan dystiolaeth.
- **Arloesi, creadigrwydd ac uchelgais**: Rhaid i'n system addysg baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd mewn cymuned fyd-eang, wedi'i digideiddio tra'n parhau i'w harfogi gyda sgiliau craidd a dealltwriaeth o'r gorau sydd wedi'i feddwl a'i ddweud. Felly, rhaid i addysg wella ac arloesi i aros yn berthnasol. Rhaid iddo wneud pethau'n well a gwneud pethau'n wahanol. Mae cenhedlaeth gyfan o blant a phobl ifanc yn tyfu'i fyny yn defnyddio dyfeisiadau symudol a chyfryngau cymdeithasol mewn oes wybodaeth – ac fe fydd eu disgwyliadau yn tyfu'n gyflym. Mae datblygiad addysgol a llythrennedd digidol felly yn annorfod ac yn angenrheidiol, ac fe fydd, yn gwbl gywir, yn adeiladu ar y sylfaen gadarn sydd gan y rhan fwyaf o ysgolion.
- **Cydweithredu a phartneriaeth**: Mae yna gydberthynas gref rhwng diwylliannau cydweithredol a llwyddiant system. Credwn mewn gwelliant parhaus trwy bartneriaethau strategol egwyddorol. Wrth i'r llywodraeth gamu'n ôl, fe fydd angen i ysgolion weithredu mewn partneriaethau o'r fath os ydyn nhw'n mynd i adeiladu capasiti a delio gyda heriau system gyfan fel cynllunio olyniaeth. Mae systemau ysgolion yn gwella pan fo ansawdd yr addysgu yn gwella. Mae partneriaethau'n cynnig y ffordd orau i sicrhau lledaeniad arbenigedd proffesiynol a thystiolaeth rhwng ysgolion. Credwn ei bod yn angenrheidiol adeiladu cyfalaf ac ymddiriedaeth proffesiynol mewn dull ymwybodol ymysg athrawon a chreu'r amodau i athrawon weithio gyda'i gilydd i wella arfer oddi mewn ac ar draws ysgolion.
- **Er lles pawb**: Credwn bod addysg er lles pawb. Mae addysg dda yn creu'r amodau cymdeithasol sydd yn galluogi pobl ifanc, yn unigolion ac yn grwpiau a chymunedau, i gyrraedd eu cyflawniad yn llawnach ac yn haws. Derbyniwn bod rhaid i'r rheidrwydd dros les pawb weithiau oresgyn sybsidiaredd – mae gan y llywodraeth rôl i'w chwarae mewn sicrhau bod y system yn gwasanaethu pawb yr un mor dda.

# Golwg o'r dyfodol – gweledigaeth a osodwyd yn 2020…

Mae'r system addysg yng Nghymru ar Daith ddiogel i fawredd.

Penderfynodd Llywodraeth Cymru mai'r unig ffordd i'r system neidio i'r lefel nesaf oedd tynnu oddi ar arbenigedd arweinwyr ysgolion da ac eithriadol. Ymddangosodd naratif polisi ar y cyd oedd yn gosod arweinwyr ysgolion a chefnogaeth ysgol i ysgol wrth galon diwygio addysgiadol. Dechreuodd Cymru edrych y tu hwnt i'r DU i ddysgu o arfer gorau rhyngwladol.

Mae'r consortia rhanbarthol yng Nghymru wedi tyfu i fod yn system hunanwelliant gyflawn, glir a chynaliadwy gyda nodweddion cryf, wedi'u diffinip'n glir yn cael eu harwain gan ysgolion, sydd yn cynnwys pwyslais ar gydweithrediad ysgol i ysgol a chydnabyddiaeth bod arbenigedd yn gorwedd yn yr ysgolion.

Yn 2015, doedd yr haen ganol rhwng Llywodraeth Cymru ac ysgolion ddim yn effeithiol o ran creu'r trawsnewid angenrheidiol mewn safonau.[9] Roedd arweinwyr ysgolion yn gweithio gyda'r llywodraeth i ddileu dyblygu a sicrhau arweinyddiaeth a llywodraethu cryf. Bellach mae yna system wedi'i synergeiddio, meinach a rhesymegol o gefnogaeth i ysgolion gydag eglurder ynghylch swyddogaethau cyflogwyr a phwerau gweithredol o ymyrraeth. Mae'r consortia yn dynodi Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol – ffederasiynau o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu swyddogaethau system graidd.[10]

Fe wnaeth rhesymoli'r haen ganol ryddhau effeithlonrwydd a bu'n sbardun i sybsidiaredd. Erbyn hyn mae cyllid ysgolion yn ddigonol, yn gyfartal ac yn gynaliadwy. Mae haen ganol fain ar ffurf consortia yn canolbwyntio yn briodol ar ysgolion lle nad ydy safonau eto yn ddigon diogel. Mae ymyrraeth cyflym yn digwydd lle mae yna fethiant sefydliadol. Mae gwelliant ysgolion bellach yn cael ei yrru trwy gefnogaeth ysgol i ysgol. Mae swyddogaethau gwelliant a chynghori y tu allan i ysgolion erbyn hyn yn brin – yr eithriad yn hytrach na'r norm.

Fe wnaeth arweinwyr ysgolion, gan synhwyro model oedd yn ymddangos yn ôl yn 2015, gamu ymlaen i arwain yr agenda trawsnewid, a dilyn y nod o addysg eang, cytbwys a pherthnasol o ansawdd uchel i bob person ifanc. Gan adeiladu ar yr egwyddorion yn adroddiad Donaldson, dechreuodd ysgolion benderfynu ar eu cwricwlwm eu hunain oddi mewn i fframwaith cenedlaethol eang, sydd bellach wedi creu creadigrwydd, ynni a pherthnasedd i ddablygiad y cwricwlwm.

Mae cred gref mewn cynnwys diwylliant ac iaith Cymru yn greiddiol i'r system addysg. Mae Cymru yn wlad ddwyieithog ac mae hyn yn ganolog i bolisi addysg. Deliodd y proffesiwn yn gyflym gyda phroblemau ansawdd wrth ddysgu Cymraeg a nodwyd yn ôl yn 2013. Erbyn hyn mae yna dderbyniad cyffredinol o fanteision gwybyddol dwyieithrwydd ac mae arweinwyr ysgolion wedi gweithio gyda'i gilydd i ddelio gydag ansawdd addysgu Cymraeg. Ni chafodd hyn ei gyflawni trwy bresgripsiwn canolog gan Lywodraeth Cymru ond yn hytrach trwy amrywiol fentrau wedi'u harwain gan y proffesiwn. Mae'r rhain wedi cynnwys gwaith ar y cyd rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a Saesneg; cysylltiadau gydag asiantaethau allanol sydd wedi cefnogi addysgu, dysgu a darparu adnoddau yn Gymraeg ac ieithoedd tramor modern; a'r defnydd o dechnolegau.

Dechreuodd modelau'n seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sydd yn gwneud addysgu da ymddangos trwy'r Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol, lle mae'r grwpiau o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu addysg broffesiynol o ansawdd uchel i staff ysgol newydd a phrofiadol. Mae'n gyffredin bellach i ysgolion feddu ar diwylliannau dysgu proffesiynol pwerus, gydag athrawon yn gweithio'n rheolaidd gyda'i gilydd gan defnyddio methodolegaethau fel astudiaeth gwers.[11] Mae hyn wedi'i sbarduno gan y Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol.

Cymrodd arweinwyr ysgolion gyfrifoldeb ar y cyd dros ansawdd addysg yr holl bobl ifanc yn yr ardal, nid y rhai yn eu hysgolion eu hunain yn unig. Dechreuodd iaith o arweinyddiaeth system ar y cyd ymddangos.

Mae'r ysgolion hynny gyda deilliannau cryf a chynaliadwy wedi ennill annibyniaeth. Trwy'r consortia, mae'r ysgolion yma bellach yn rhan o gefnogaeth ysgol i ysgol. Mae rolau fel penaethiaid gweithredol yn ymddangos wrth i ysgolion ffederaleiddio mewn grwpiadau cryf a chynaliadwy.

Creodd Llywodraeth Cymru y fframwaith deddfwriaethol i gadarnhau'r holl gyfrifoldebau dros oruchwylio'r system yn y consortia. Rôl alluogi oedd gan y llywodraeth gan ddefnyddio ei phwerau i annog codi safonau ac addysg o ansawdd uchel dan arweiniad ysgolion. Mae'r system wedi'i pharatoi gan nifer o nodau uchelgeisiol yn canolbwyntio ar arweiniad yn hytrach na chan fesurau ac mae hynny wedi tanio dychymyg ar y cyd ac wedi rhyddhau egni proffesiynol.

---

9 Rydym yn ymwybodol bod yna ymgynghoriad cyfredol o ddewisiadau ar gyfer diwygio llywodraeth leol. Mae'r strwythur cyfredol yn methu darparu gwasanaethau o ansawdd ar draws Cymru, ac mae gwasanaethau addysg yn parhau mewn mesurau arbennig mewn sawl awdurdod. Mae KMPG yn amcangyfrif bod y system gyfredol yn costio £151 miliwn i dalwyr trethi cyngor ar wasanaethau wedi'u dyblygu bob blwyddyn.

10 Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio rhaglen o ysgolion arloesi i ddylunio a datblygu fframwaith cwricwlwn a gosod y sylfeini ar gyfer newid trwy sicrhau bod gan yr holl ymarferwyr fynediad i ddysgu proffesiynol effeithiol, eu cefnogi i wireddu'r cwricwlwm newydd. Mae ein cynigion ar gyfer Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol yn cwmpasu hyn ond mae'n mynd y tu hwnt i ysgolion unigol. Mae ymchwil wedi dangos bod dysgu proffesiynol ar ei fwyaf pwerus pan gaiff ei rannu ar draws ysgolion trwy gydweithrediad a dysgu cymheiriaid.

11 Proses gwelliant addysgu ydy Astudiaeth Gwers gyda'i wreiddiau yn addysg elfennol Japan, lle mae'n arfer datblygu proffesiynol cyffredin. Gellir ei gyfieithu fel 'gwers ymchwil' – dull lle mae athrawon yn cynllunio, addysgu, arsylwi a beirniadu gwersi ei gilydd.

# Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru wedi'u hamlinellu'n glir

Maen nhw'n cynnwys:

- Cyllido teg sydd yn ddigonol, yn gynaliadwy ac yn gyfartal, sydd yn cynnwys cyllid fesul dysgwr, pwysedd ar gyfer dysgwyr dan anfantais a dysgwyr bregus eraill ac sydd yn galluogi cyrff addysgol i ganolbwyntio ar gau bylchau cyflawniad.
- Fframaith *main, deallus a sefydlog* o safonau mewn deilliannau ac atebolrwydd cyhoeddus.
- Cyfrif trwy fodelu cytun y nifer o athrawon sydd eu hangen ym mhob rhanbarth a hyrwyddo statws a gwerth addysgu fel proffesiwn.
- Rhaglen gyfalaf sydd yn sicrhau digonolrwydd ac ansawdd darpariaeth addysgol ac amgylcheddau dysgu sydd yn addas i'r 21ain ganrif.
- Rôl strategol mewn monitro perfformiad y system a nodi a helpu i ddelio gyda materion strategol potensial allai lesteirio llwyddiant yn y dyfodol.

*Bu arweinwyr ysgolion a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i greu'r glasbrint ar gyfer y system newydd trwy ddefnyddio chwech elfen…*

# Elfen Un: Adeiladu cyfalaf proffesiynol

## Ein gweledigaeth

Ystyrir addysgu yn broffesiwn hynod o fedrus sydd yn gyson yn cael ei fireinio, ei herio a'i ddatblygu i wella deilliannau i fyfyrwyr. Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r 'pam' a'r 'sut' o addysgu yn ogystal â'r 'beth'.[12] Mae athrawon yn gweld eu hunain yn cyfrannu ar y cyd i ragoriaeth mewn system addysg o'r radd flaenaf, creu cymdeithas deg a budd i bawb. Mae'r ffocws adnewyddedig yma ar reidrwydd moesol addysgu a phwrpas addysg wedi creu synnwyr cryf o egni, pwrpas ar y cyd a phroffesiynoldeb.

Creodd adroddiad Furlong yn 2015 broffesiynoldeb newydd ymysg addysgwyr yng Nghymru. Camodd y proffesiwn ymlaen i gymryd yr arweinyddiaeth. Erbyn hyn mae set blaengar o safonau athrawon wedi'u perchnogi gan y proffesiwn yn bodoli. Mae'r safonau yma yn cysyniadoli dysgu athrawon mewn dull datblygiadol. Maen nhw'n pwsleisio 'gwybod a dealltwriaeth' gyda chydnabyddiaeth glir o ddefnyddio a chreu tystiolaeth.[13]

O ganlyniad i adroddiad Furlong, lansiodd Llywodraeth Cymru raglen o Gynghreiriau Dysgu Proffesiynol,[14] lle mae grwpiau o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu addysg broffesiynol o ansawdd uchel i staff ysgol newydd a phrofiadol. Maen nhw bellach yn rhan gadarn o gynllun Llywodraeth Cymru i roi rôl ganolog i ysgolion mewn codi safonau trwy ddatblygu system hunanwelliant a chynaliadwy wedi'i harwain gan ysgolion.

Fel rheol mae Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol yn cael eu harwain gan ysgol eithriadol. Fel rheol maen nhw'n grwpiau o ysgolion sydd yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffederasiwn feddal gydag ysgolion eraill a phartneriaid strategol fel sefydliadau addysg uwch. Mae ganddyn nhw set craidd o swyddogaethau sydd yn cynnwys:

- addysg athrawon cychwynnol [15]
- dysgu proffesiynol parhaus
- datblygiad arweinyddiaeth
- cefnogi ysgolion gwannach yn y system trwy gefnogaeth ysgol i ysgol
- ymchwil a datblygiad – unwaith eto mewn partneriaeth gyda sefydliad addysg uwch

Mae'r pump swyddogaeth craidd yma wedi darparu anogaeth bwerus a phwrpas i bartneriaeth ddofn rhwng ac ymysg ysgolion. Maen nhw hefyd wedi codi statws y proffesiwn, sicrhau dysgu proffesiynol o ansawdd ar bob cam gyrfa ac wedi symleiddio a darparu adnoddau ar gyfer cydweithrediad ysgol i.ysgol.[16]

Mae gan y rhan fwyaf o Gynghreiriau Dysgu Proffesiynol gyfarwyddwr dysgu proffesiynol sydd yn cydlynu, cynllunio, herio a chefnogi addysg broffesiynol ar draws yr ysgolion yn y gynghrair. Mae'r gorau o'r rhain wedi'u dynodi fel canolfannau rhagoriaeth addysgol.[17]

Erbyn hyn mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac ymrwymiad tuag at gyflawniad pob dysgwr, maen nhw'n cymryd cyfrifoldeb dros arloesi, yn croesawu newid ac yn helpu i'w arwain. Mae ganddyn nhw ffocws cliriach ar anghenion dysgwyr unigol, yn cynnwys eu dysgu sut i ddysgu. Maen nhw'n derbyn ac yn ymateb i'r galwadau ar eu hatebolrwydd ac yn cymryd cyfrifoldeb proffesiynol ar y cyd dros ddysgu proffesiynol.[18] Cylch gwaith athrawon, ysgolion a grwpiau o ysgolion yn gweithio mewn cydweithrediad â'i gilydd trwy Gynghreiriau Dysgu Proffesiynol yn gyfan gwbl ydy'r cyfrifoldeb dros ddysgu proffesiynol.

---

12 Donaldson 2015 tudalen 58

13 Mae symleiddio safonau proffesiynol yn argymhelliad adroddiad OECD hefyd, *Improving Schools in Wales: An OECD perspective*.

14 Mae Furlong yn cynnig 'Ysgolion Hyfforddi' – ysgolion sydd yn cael staffio ychwanegol i gyflawni gwaith ar addysg eu hathrawon. Fe fyddai'n well gennym ni 'Gynhreiriau Dysgu Proffesiynol' gyda set ehangach, ond wedi'u diffinio'n ganolog o swyddogaethau craidd.

15 Rydym yn cefnogi cynigion Furlong i ysgolion gael rôl arweiniol mewn addysg athrawon cychwynnol, mewn dull o weithredu ysgol gyfan tuag at addysg proffesiynol, gweithio mewn cydweithrediad agos gyda'u partneriaid prifysgol. Mae'n rhagweld datblygu rhaglenni mewn dulliau systematig, integreiddio'r hyn mae myfyrwyr athrawon yn eu dysgu yn yr ysgol gyda ffurfiau eraill o wybodaeth broffesiynol y maen nhw'n eu caffael trwy eu prifysgolion.

16 Ateb polisi ydy Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol i adeladu cyfalaf proffesiynol a diwylliant o gyfrifoldeb ar y cyd i wella dysgu i bob myfyriwr fel y nodwyd yn adroddiad OECD, *Improving Schools in Wales: an OECD perspective.* Mae'r un adroddiad yn nodi bod dysgu proffesiynol yng Nghymru wedi tan ddatblygu.

17 Awgryma Furlong y dylai'r llywodraeth gyllido pump sefydliad addysg uwch i fod yn ganolfannau rhagoriaeth addysgol, pob un gyda chysylltiadau cryf gyda darpariaeth addysg athrawon. Credwn y dylai dynodi canolfan rhagoriaeth addysgol fod yn safon aur i'r Cynghreiriau Dysu Proffesiynol, fel bod rhagoriaeth addysgol wedi'i ddiffinio a'i yrru gan y proffesiwn mewn system hunanwelliant. Fe fyddai partneriaeth strategol gref gyda sefydliad addysg bellach yn ôl diffinad yn rhan allweddol o allu Cynghrair Dysgu Proffesiynol i gyflawni'r statws yma. Mae Furlong yn cynnig bod y llywodraeth yn sefydlu 'Bwrdd Achredu Addysg Athrawon' oddi mewn i Gyngor Gweithlu Addysg Cymru. Gallai'r corff yma achredu darparwyr addysg athrawon cychwynnol a dynodi canolfannau rhagoriaeth addysgol.

18 Mae'r paragraff yma wedi'i addasu o'r weledigaeth ar gyfer proffesiynoldeb athrawon a amlinellir ar dudalen 6 o Adroddiad Furlong.

Mae addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon (ITET) wedi'i wreiddio mewn gwybodaeth addysgol gref, datblygu ansawdd cyfarwyddyd, rheolaeth a hinsawdd dosbarth ac ymddygiad proffesiynol.[19] Mae gan ITET fframwaith cwricwlwm craidd sydd yn nodi gwybodaeth ategol sydd yn fframio arfer a myfyrdod ar arfer. Deallir bod addysg wedi'i wreiddio mewn corff o wybodaeth ac wedi'i lywio gan dystiolaeth. Mae ITET yn briodoledig ar wybodaeth pwnc cryf yn syth o'r blynyddoedd cynnar i'r chweched dosbarth, ac mae gan athrawon sydd yn dod i mewn i'r proffesiwn wybodaeth ddofn o'r pynciau y maen nhw'n eu dysgu.

Mae sefydliadau addysg uwch yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysglion trwy Gynghreiriau Dysgu Proffesiynol i sicrhau bod arfer a sgiliau addysgol wedi'u hangori mewn gwybodaeth ddamcaniaethol gref. O'r adeg y maen nhw'n dod i mewn i'r proffesiwn mae athrawon yn defnyddio ac yn creu tystiolaeth. Maen nhw'n rheolaidd yn gwerthuso ac yn defnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth sydd yn berthnasol i welliant arfer.

Mae dysgu proffesiynol yn barhaus ac yn ailadroddol.[20] Mae rhaglenni dysgu proffesiynol yn rheolaidd yn ail ymweld â gwybodaeth ategol i ddyfnhau dysgu ac i fireinio gwybodaeth. Ychydig iawn o ddysgu proffesiynol sydd yn ddysgu 'untro', ac eithrio digwyddiadau rhoi gwybodaeth. Mae'r rhan fwyaf o raglenni dysgu proffesiynol wedi'u dylunio dros gyfnod o amser, yn berthnasol i athrawon ac yn cynnwys ymchwil gweithredu yn y dosbarth, dysgu cymheiriaid ac achredu. Mae athrawon yn gweithio'n gydweithredol gydag athrawon eraill a gweithwyr proffesiynol eraill, o ddydd i ddydd ac wrth ddatblygu eu harfer, ac maen nhw'n tynnu oddi ar arfer da ar draws y DU ac yn rhyngwladol.

Efallai yn bwysicaf, mae athrawon yn rheolaidd yn gweld eu hunain fel gwerthuswyr eu heffaith ar ddysgu myfyrwyr.[21] Maen nhw'n rhagweithiol wrth gymryd cyfrifoldeb. Gwelir dysgu proffesiynol fel hawl yn unig fel ag y mae'n galluogi gwelliant ac arloesi sydd yn effeithio ar ddeilliannau i fyfyrfwyr.

Mae gwybodaeth a sgiliau proffesiynol wrth asesu a galluogi myfyrwyr i wneud cynnydd yn eu dysgu yn agwedd allweddol o addysg, gan ddechrau gydag addysg athrawon cychwynnol. Rhoddir blaenoriaeth i asesu fel rhywbeth sydd gyda rôl ffurfiannol mewn addysgu a dysgu ac mae'n gyflin gyda dibenion dysgu. Mae amrediad eang o dechnegau asesu bellach ar waith Mae athrawon nawr yn asesu cynnydd myfyrwyr yn hyderus, gyda chefnogaeth aseswyr siartredig o'r proffesiwn sydd yn gweithio ar draws grwpiau o ysgolion i herio, cefnogi a datblygu arfer.[22]

Mae yna Ganolfan Tystiolaeth Addysg genedlaethol[23], wedi'i chyllido gan waddol oddi wrth Lywodraethau Cymru a Lloegr, yn bwydo tystiolaeth cenedlaethol a rhyngwladol o arfer gorau i'r broses o lunio polisi ar lefel genedlaethol ac i arfer proffesiynol athrawon ac arweinwyr ysgolion. Mae hyn yn annibynnol o'r llywodraeth a'r proffesiwn.

Mae'r ffocws llwyr ar sgiliau proffesiynol, ansawdd yr addysgu a'i effaith ar ddeilliannau myfyrwyr yn golygu mai ychydig iawn o addysgu gwael sydd yn bodoli bellach. Mae lefelau uchel o berchnogaeth ac atebolrwydd gan athrawon ac arweinwyr ysgolion – a ddeilliodd trwy symudiad yn ffocws cyfrifoldeb o du allan y system ysgolion i'r tu mewn iddi – wedi cael effaith sylweddol ar ddeilliannau. Mae ysgolion ac athrawon nawr yn gyd atebol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau.

### Y camau i arweinwyr ysgolion eu cymryd

- Cydnabod mai datblygu ansawdd athrawon ydy un o'r gwaith pwysicaf yn yr ysgol a gwneud gwella dysgu proffesiynol yn fan cychwyn. Nodi arweinydd ysgol dawnus a rhoi'r adnoddau iddyn nhw arwain ar addysg athrawon cychwynnol a dysgu proffesiynol. Meithrin dysgu wedi'i arwain gan gymheiriaid – cyffroi athrawon ynghylch addysgu, cynllunio a gwerthuso eu haddysgu gyda'i gilydd, arsylwi a dysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu'r hyn sydd yn gweithio oddi mewn neu ar draws grwpiau o ysgolion – a chydnabod y bydd angen arbenigedd allanol i osgoi bod yn fodlon.
- Gweithio gydag athrawon i ddatblygu arfer asesu – cael un neu ragor o'r athrawon cryfaf i hyfforddi i fod yn asesydd siartredig a rhoi dylanwad iddyn nhw yn yr ysgol.
- Arwain wrth ddatblygu ac asesu dulliau o weithredu i gau'r bwlch, fel bod pob athro/athrawes wedi ymgysylltu ac wedi ymrwymo i werthuso tystiolaeth yn gyson a mireinio a gwella arfer ar sail tystiolaeth a dealltwriaeth broffesiynol gynyddol.
- Rhagweld Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol, ystyried sut y bydd eich ysgol yn grwpio a datblygu perthynas ffurfiol gyda sefydliad addysg bellach. Annog athrawon i gynnal ymchwil a defnyddio amrediad o dystiolaeth credadwy i lywio eu harfer.

---

19 Coe, R., Aloise, C., Higgins, S and Elliot Major, L. (2014) *What makes great teaching? Review of the underpinning research.* Durham University and the Sutton Trust.

20 Mae'r adran yma yn tynnu oddi ar waith Philippa Cordingly yn CUREE a Timperley, H. (2008) *Teacher professional learning and development.* International Academy of Education, International Bureau of Education, UNESCO.

21 Hattie, J. *Visible Learning for Teachers,* Publisher, p 159ff.

22 Mae Donaldson yn rhoi ffocws cryf ar asesu yn *Successful Futures* ac mae 19 o'r 68 argymhelliad yn berthynol i asesu. Mae cryfhau gwerthuso ac asesu hefyd yn argymhelliad allweddol yn adroddiad OECD, *Improving Schools in Wales: An OECD perspective.* Fe fydd ein cynnig ar gyfer adran o'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Aseswyr Addysgol yn cefnogi gweithrediad yr argymhellion yn y ddau adroddiad.

23 Mae adroddiad OECD, *Improving Schools in Wales: An OECD perspective*, yn argymell buddsoddi mewn capasiti gwerthuso ac ymchwil cenedlaethol i gryfhau'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn polisi ac arfer addysg. (tudalen 109). Mae'r un adroddiad yn arddangos bod gan nifer o wledydd gyda systemau addysg o ansawdd uchel gapasiti ymchwil a gwerthuso cryf (tudalen 105).

### Camau i gyrff llywodraethu eu cymryd

- Sicrhau bod yna fuddsoddiad digonol ac effeithiol mewn dysgu proffesiynol i'r holl staff sydd yn effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr, a sicrhau bod datblygu proffesiynoldeb yn flaenoriaeth strategol allweddol.

### Camau y bydd ASCL yn eu cymryd

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu manyleb a swyddogaethau craidd i Gynghreiriau Dysgu Proffesiynol.
- Gweithio gyda Sefydliad Siartredig Aseswyr Addysgol i sefydlu adran yng Nghymru.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu comisiwn wedi'i arwain gan y proffesiwn i ddiwygio safonau athrawon.
- Gweithio gyda chymdeithasau ymchwil i ddatblygu diwygiadau asesu wedi'u llywio gan dystiolaeth.
- Datblygu manyleb ar gyfer Canolfan Dystiolaeth i Addysg.
- Defnyddio'r adolygiad systematig o ddysgu proffesiynol sydd yn cael ei gynnal ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Datblygu Athrawon i gyhoeddi canllaw i ysgolion.

### Camau i Lywodraeth Cymru eu cymryd

- Lansio rhaglen o Gynghreiriau Dysgu Proffesiynol gyda phump swyddogaeth craidd i adeiladu capasiti system i addysg proffesiynol a chapasiti ymchwil proffesiynol.
- Sefydlu comisiwn wedi'i arwain gan y proffesiwn i adolygu safonau athrawon.
- Adolygu'r meini prawf achredu sydd yn canolbwyntio yn fanwl ar natur partneriaethau prifysgolion/ysgolion ac sydd yn rhoi'r cyfrifoldeb arweiniol i ysgolion mewn agweddau allweddol o raglenni ITE.
- Sefydlu 'Bwrdd Achredu Addysg Athrawon' oddi mewn i Gyngor Gweithlu Addysg Cymru, yn cynnwys cynrychiolaeth o'r proffesiwn, gan anfon neges gref am y proffesiwn ei hun yn cymryd y rôl arweiniol yn ei addysg proffesiynol ei hun.
- Cefnogi sefydlu Sefydliad Siartredig ar gyfer Aesswyr Addysg yng Nghymru i gryfhau arfer asesu a chefnogi gweithrediad argymhellion adroddiad Donaldson.
- Gweithio gyda'r proffesiwn i sefydlu Canolfan Dystiolaeth i Addysg a fydd yn gyfan gwbl annibynnol o'r llywodraeth.

# Elfen Dau: Cwricwlwm, asesu a chymwysterau

**Ein gweledigaeth**

Rhyddhaodd adolygiad eang ei amrediad a phwerus yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm yn ôl yn 2015 egni enfawr yn y proffesiwn. Ymgasglodd y system addysg gyfan yng Nghymru o amgylch gweledigaeth gyffredin ac mae wedi penderfynu ar y cyd i symud oddi wrth y farn fecanistaidd o'r cwricwlwm fel fframwaith cul o gynnwys pynciau. Derbyniwyd y farn amgen yr oedd Donaldson yn ei chynnig gydag angerdd ac ymrwymiad: bellach mae'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru mewn gwirionedd yn cynnwys y profiadau dysgu a'r gweithgareddau asesu a gynlluniwyd wrth ddilyn pwrpasau addysg cytun.

Mae ysgolion erbyn hyn yn penderfynu yn hydreus ar eu cwricwlwm eu hunain oddi mewn i fframwaith cenedlaethol eang sydd wedi dod â chreadigrwydd, deinameg a pherthnasedd i ddatblygiad y cwricwlwm. Mae gan arweinwyr ysgolion lawer mwy o annibyniaeth wrth benderfynu ar y cwricwlwm i'w hysgolion eu hunain neu i grŵp o ysgolion. Mae'r cwricwlwm yn ysgolion Cymru yn eang ac yn ddwfn, yn cwmpasu gwybodaeth, sgiliau a nodweddion.

Mae'r cwricwlwm ysgol yn seiliedig ar egwyddorion cryf o ddylunio cwricwlwm: wedi'i wreiddio mewn gwerthoedd a diwylliant Cymreig, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn berthnasol i anghenion heddiw, yn gynhwysol, uchelgeisiol ac yn seiliedig ar egwyddorion sybsidiaredd. Mae'n grymuso pobl ifanc i baratoi'n hyderus ar gyfer her eu bywydau yn y dyfodol ac mae'n eu hymgysylltu.[24]

Yn greiddiol i'r system addysg y mae cred gref mewn anwesu diwylliant ac iaith Cymru. Mae Cymru yn wlad ddwyieithog ac mae hyn yn ganolog i'r polisi addysg. Daeth y proffesiwn i'r afael yn gyflym gyda'r problemau ansawdd mewn addysgu Cymraeg yn ôl yn 2013. Erbyn hyn mae yna dderbyniad eang o fanteision gwybyddol dwyieithrwydd ac mae arweinwyr ysgolion wedi gweithio gyda'i gilydd i ddelio gydag ansawdd addysgu Cymraeg. Chafodd hyn ddim ei gyfawni trwy bresgriptiwn canolog oddi wrth Lywodraeth Cymru ond yn hytrach trwy amrywiol fentrau wedi'u harwain gan y proffesiwn. Mae'r rhain wedi cynnwys cydweithio rhwng ysolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a Saesneg; cysylltiadau gydag asiantaethau allanol sydd wedi cefnogi addysgu, dysgu a darparu adnoddau yn Gymraeg ac ieithoedd tramor modern; a'r defnydd o dechnolegau.

Mae arweinyddiaeth y broses ddiwygio a'r trefniadau cwricwlwm ac asesu bellach yn cael eu darparu gan gorff hyd braich – comisiwn annibynnol ar gyfer adolygu'r cwricwlwm.[25]

Mae'r corff yma wedi goruchwylio'r broses o newid, wedi gosod cyflymdra cadarn ond mesuredig ac ar yr un pryd wedi adeiladu capasiti proffesiynol. Mae wedi comisiynu trefniadau gwerthuso annibynnol i fonitro effeithlonrwydd y dull o weithredu newydd tuag at y cwricwlwm a'r broses o newid.[26]

Mae'r strategaeth newid yn enghraifft ddisglair o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i system wedi'i harwain gan ysgolion, hunanwelliant ac egwyddor sybsidiaredd – cafodd presgripsiwn canolog ei wrthod o blaid gwneud penderfyniadau datganoledig i'r lefel agosaf yn gyson gyda'i weithrediad ac i'r lle agosaf at y myfyrwyr, fel arweinwyr ysgolion. Mae hi'n gyffredin bellach i weledigaeth cwricwlwm a modelau addysgol cryf fod wrth galon gwelliant ac arloesi. Mae pobl ifanc yn ennill cymwyseddau ac ymagweddau sydd yn eu paratoi i fod yn greadigol, yn gysylltiedig ac yn gydweithredol, yn ogystal â bod yn fodau dynol iach, holistaidd sydd yn cyfrannu ac yn creu'r lles cyffredin mewn byd creadigol yn seiliedig ar wybodaeth, rhyngddibynnol cyfoes.[27] I ddatblygu ein plant fel arweinwyr oddi mewn i'r diwylliant hwn o greadigrwydd a hunanwelliant fel bod ganddyn nhw y fenter, y sgiliau a'r nodweddion angenrheidiol i gynnal arweinyddiaeth system.

Mae'r defnydd o dechnolegau a llythrennedd digidol oddi mewn i'r cwricwlwm ac oddi mewn i ysgolion wedi cynyddu'n fawr trwy ryddhau pŵer grwpiau o ysgolion yn cydweithio mewn Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol. Mae rhai cynghreiriau wedi arwain y ffordd o ran datblygu modelau addysgol pwerus o addysgu a dysgu, wedi'u galluogi a'u cyflymu gan offer ac adnoddau digidol. Mae'r mwyaf llwyddiannus o'r rhain bellach wedi'u dynodi yn ganolfannau addysgol rhagoriaeth, yn benodol am eu gwaith ar dechnolegau a llythrennedd digidol.

Mae system addysg gyfartal yn sicrhau nad ydy nodweddion personol dysgwyr yn cyfyngu ar eu cyfleoedd a'u deilliannau addysgol. Yn ôl yn 2015,roedd hyn yn broblem wirioneddol.[28] Bellach mae ffordd o feddwl twf a seicoleg cadarnhaol yn treiddio trwy gymunedau ysgolion – mae gan oedolion gred diwyro bod modd i bob plentyn lwyddo waeth beth fo'r canfyddiadau am ddeallusrwydd cynhenid neu gefnidr economaidd.[29]

Mae rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol a sefydlwyd yn 2015, yn gosod y safonau i gyrff dyfarnu eu diwallu pan fyddan nhw'n dylunio, darparu a dyfarnu cymwysterau rheoleiddiedig. Mae'r rheoleiddiwr yn annibynnol o'r proffesiwn a'r llywodraeth – mae'n bodoli i sicrhau cymwysterau o'r radd flaenaf yng Nghymru.

---

24 Mae'r egwyddorion hyn yn seiliedig ar egwyddoion Donaldson o ddyluniad cwricwlwm ar dudalen 14 o *Successful Futures.*

25 Yn seiliedig ar argymhelliad 54 yn Adroddiad Donaldson, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth Cymru gyfan gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Estyn, prif academyddion, cyflogwyr, Llywodraeth Cymru a rhan ddeiliaid allweddol eraill. I bob pwrpas, hwn ydy ein cynnig ar gyfer comisiwn annibynnol. Fe fyddem yn cynnig yn gryf bod arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr, athrawon a rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y bartneriaeth.

26 Yn seiliedig ar argymhellion 54 a 55 o adroddiad Donaldson.

27 Fullan, M. and Langworthy, M. (2014) *A Rich Seam - How New Pedagogies Find Deep Learning,* Pearson, p.2

28 *Improving Schools in Wales: An OECD perspective* yn darparu tystiolaeth gadarn o'r broblem yma ar dudalen 21.

29 Dweck, C. (2006). *Mindset: The new psychology of success*. New York: Random House

Mae ymchwil a thystiolaeth wedi helpu i lywio'r diwygiad cwricwlwm a chymwysterau a ddechreuwyd yn 2015. Mae wedi canolbwyntio'n gryf ar bedwar pwrpas y cwricwlwm:

- plant a phobl ifanc sydd yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu trwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae rhan llawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol, deallus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas[30]

Yn y modd yma, mae diwygiadau asesu a chymwysterau wedi dilyn yn briodol y cwricwlwm a'r deilliannau y mae Cymru yn chwilio amdanyn nhw mewn person ifanc addysgiedig 19 oed.

Gan ennyn hyder, dechreuodd y proffesiwn ddeialog cynhyrchiol gydag awdurdodaethau uwch eu perfformiad yr oeddem yn dymuno dysgu am gwricwlwm ac addysg oddi wrthyn nhw, ac a oedd yn eu tro yn dymuno dysgu oddi wrthym ni am ddatblygu set sgiliau ehangach. Mae Cymru bellach yn cael ei chyndabod am berfformio'n uchel mewn meysydd craidd.

### Camau i arweinwyr ysgolion eu cymryd

- Datblygu gweledigaeth gwricwlwaidd eofn a model addysgol a fydd yn addas i gyd-destun yr ysgol – nid ymateb pragmataidd neu offeryniaethol i ddiwygiadau cymwysterau a mesurau atebolrwydd ond yn hytrach cwricwlwm sydd yn adeiladu tuag at y pedwar pwrpas a ddiffinwyd gan Donaldson:
  - plant a phobl ifanc sydd yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu trwy gydol eu hoes
  - cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae rhan llawn mewn bywyd a gwaith
  - dinasyddion moesegol, deallus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd
  - unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas
- Ystyried y defnydd o dechnolegau oddi mewn i'r cwricwlwm ac oddi mewn i'r ysgol. Datblygu a phrofi modelau o addysgu a dysgu, wedi'u galluogi a'u cyflymu gan offer ac adnoddau digidol cynyddol dreiddiol. Adeiladu strategaeth ar gyfer llythrennedd digidol o fewn eich ysgol – ac o bosibl ar draws eich grŵp o ysgolion.
- Adeiladu diwylliant o ddylunio a datblygu cwricwlwm ar draws yr ysgol neu ysgolion – galluogi arweinwyr canol i weithio gyda'i gilydd ac ar draws ysgolion a grwpiau o ysgolion i ddatblygu cwricwlwm pynciau.
- Penderfynu sut i wella anawdd addysgu Cymraeg. Creu cynllun gwelliant penodol wedi'i adeiladu o amgylch amrediad o atebion lleol.
- Dathlu darpariaeth yn yr ysgol – sut y mae'n adlewyrchu'r ffordd yr ydych yn gweld pwrpas sylfaenol addysg a sut y bydd yn paratoi myfywyr ar gyfer bywyd yn y Gymru gyfoes ac mewn cymdeithas fyd-eang.
- Adeiladu strategaeth asesu o amgylch ffordd o feddwl twf a seicoleg cadarnhaol – ei gwneud yn flaenoriaeth i herio unrhyw ganfyddiad a phob canfyddiad ynghylch gallu cynhenid neu ddisgwyliadau isel.
- Cynnwys staff a myfyrwyr mewn trafodaeth am y byd y bydd myfyrwyr yn mynd iddo – helpu athrawon i feddwl am yr hyn y bydd mfyrwyr ei angen i fod yn llwyddiannus yn yr 21ain ganrif, ac yna sut y gallai hynny effeithio ar yr hyn y maen nhw'n ei wneud yn y dosbarth.

### Camau i gyrff llywodraethu eu cymryd

- Fel rhan o weledigaeth yr ysgol, penderfynu ar ddarpariaeth a sut y mae'n penderfynu ar y galluoedd a'r ymagweddau sydd yn eu paratoi i fod yn oedolion creadigol, yn cysylltu ac yn cydweithredu sydd yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.

### Camau y bydd ASCL yn eu cymryd

- Datblygu canllaw i gefnogi arweinwyr ysgolion i ddatblgu athroniaeth cwricwlwm cadarn, gyda thystiolaeth dda ac egwyddorol.
- Rhannu tystiolaeth ymchwil, a chefnogi arweinwyr ysgolion i wella arbenigedd a galluedd mewn dylunio cwricwlwm tra trwy arweiniad a rhaglenni Datblygiad Proffesiynol ASCL (ASCL PD), sydd yn cwmpasu'r egwyddor bod asesu yn cael ei yrru gan y cwricwlwm.

30 Mae hwn yn gefnogaeth gref o fynegiant pwerus Donaldson o bwrpasau'r cwricwlwm (tudalen 29ff).

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r rheoleiddiwr cymwysterau ar ddiwygiadau cwricwlwm a chymwysterau fel eu bod o ansawdd uchel ac o'r radd flaenaf yn gyson.

**Camau i Lywodraeth Cymru eu cymryd**

- Gweithio gyda'r rheoleiddiwr cymwysterau a'r proffesiwn i ddiwygio'r cwricwlwm a chymwysterau Cymreig yn unol â'r egwyddorion yn adroddiad Donaldson.
- Gweithio gyda'r proffesiwn a chymdeithasau pwnc, addysg uwch a chyflogwyr i sefydlu'r comisiwn annibynnol ar gyfer adolygu'r cwricwlwm Dylai'r corff yma oruchwylio'r broses o newid, gosod cyflymdra cadarn ond mesuredig ac ar yr un pryd adeiladu capasiti proffesiynol. Dylai hefyd fod â chyfrifoldeb dros gomisiynu trefniadau gwerthuso annibynnol i fonitro effeithlonrwydd yr ymagwedd newydd tuag at y cwricwlwm a'r broses o newid.

# Elfen Tri: Cyllido a datganoli

## Ein gweledigaeth

Mae'r consortia wedi blodeuo i fod yn system hunanwelliant cwbl glir a chynaliadwy gyda nodweddion amlwg wedi'u diffinio'n glir gan yr ysgolion, sydd yn cynnwys pwyslais cynyddol ar gydweithrediad ysgol i ysgol a chydnabyddiaeth bod arbenigedd ar gael oddi mewn ac ar draws ysgolion.

Yn 2015, doedd yr haen ganol rhwng Llywodraeth Cymru ac ysgolion ddim yn ddigonol i greu'r trawsnewid angenrheidiol mewn safonau.[31] Bu arweinwyr ysgolion yn gweithio gyda'r llywodraeth i ddileu dyblygu a sicrhau arweinyddiaeth a llywodraethu cryf. Erbyn hyn mae yna system wedi'i synergeiddio, meinach a rhesymegol o gefnogaeth i ysgolion gydag eglurder ynghylch swyddogaethau cyflogwyr a phwerau ymyrraeth gweithredol. Mae'r consortia yn dynodi Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol – ffederasiynau o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu swyddogaethau systemau craidd.[32]

Fe wnaeth rhesymegoli'r haen ganol ryddhau mesurau effeithlonrwydd sylweddol a chreu sbardun i sybsidiaredd. Cafodd y mesurau effeithlonrwydd a ryddhawyd trwy ddileu dyblygu eu datganoli i ysgolion trwy fformiwla cyllido cenedlaethol newydd.[33] Mae'r grantiau blynyddol oedd yn creu problemau o ran sefydlogrwydd ariannol wedi diflannu. Er mwyn cyflawni arbedion maint, mae cyllid wedi'i ddatganoli i'r consortia trwy fformiwla cenedlaethol, a'r angen i'r consortia ddefnyddio fformiwla cyllido cenedlaethol i ddatganoli bron yr holl gyllid i ysgolion ar egwyddor sybsidiaredd. Mae cyllido ysgolion bellach yn ddigonol, cyfartal a chynaliadwy.

Mae haen ganol denau ar ffurf y consortia yn canolbwyntio'n briodol ar ysgolion lle nad ydy safonau eto yn ddigon diogel. Ceir ymyrraeth cyflym lle mae yna fethiant sefydliadol. Mae gwelliant ysgolion bellach yn cael ei yrru trwy gefnogaeth ysgol i ysgol. Erbyn hyn mae swyddogaethau gwelliant a chynghori y tu allan i ysgolion yn brin – mae'n eithriad yn hytrach na'r rheol.

Yn 2016, dechreuodd partneriaethau ysgolion ar ffurf Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol luosogi'n gyflym wrth i'r proffesiwn gamu ymlaen i arwain y system. Roedd hyn yn nodwedd bendant o'r sbardun i sybsidiaredd. Mae'r partneriaethau yma wedi adeiladu'r raddfa a'r capasiti i gyflawni rolau systemau, fel y capasiti ar gyfer addysg athrawon cychwynnol, dysgu proffesiynol cynaliadwy oddi mewn ac ar draws ysgolion ac ymchwil a datblygu gan weithio'n agos gyda sefydliadau addysg uwch.

Ond, doedd y broblem o raddfa a chynaliadwyedd sefydliadau bychain annibynnol, yn enwedig ysgolion cynradd bach, mewn hinsawdd ariannol oedd yn tynhau, heb ei datrys. Roedd rhaid i ysgolion wneud rhai newidiadau. Sylweddololodd ysgolion llai (cynradd ac uwchradd) nad oedden nhw'n gynaliadwy fel sefydliadau annibynnol. Erbyn hyn mae yna sumudiad ar y gweill tuag at ffederasiynau ffurfiol gyda threfniadau llywodraethu ar y cyd[34].

Caiff atebolrwydd ariannol ei sicrhau trwy archwiliadau annibynnol, blynyddol sydd yn gwirio rheoliadau, systemau, trafodion a risgiau ariannol. Mae cyfrifon ysgolion ar gael yn gyhoeddus. Mae cyfarwyddwyr ariannol yn cael eu hystyried yn uwch arweinwyr pwysig mewn ysgolion a grwpiau o ysgolion.

## Camau i arweinwyr ysgolion eu cymryd

- Adeiladu capasiti lleol i grwpiau o ysgolion weithio gyda'i gilydd.

## Camau i gyrff llywodraethu eu cymryd

- Edrych yn fanwl ar sefyllfa ariannol yr ysgol. Modelu'r cyllid dros gyfnod o dair i bum mlynedd – ystyried ydy'r corff yn gynaliadwy ai peidio a beth sydd angen ei wneud os nad yw'n gynaliadwy. Datblygu model ariannol cysgodol sydd yn cyfrifo ac yn arddangos digonolrwydd lleiaf i lywio gwneud penderfyniadau'n strategol.

---

31 Rydym yn ymwbodol bod yna ymgynghoriad ar hyn o bryd ar y dewisiadau ar gyfer diwygio llywodraeth leol. Dydy'r strwythur cyfredol ddim yn darparu gwasanaethau o ansawdd ar draws Cymru, ac mae gwasanaethau addysg yn parhau mewn mesurau arbennig mewn sawl awdurdod. Mae KPMG yn amcangyfrif bod y system gyfredol yn costio £151 miliwn i dreth dalwyr cynghorau ar ddyblygu gwasanaethau gweinyddol bob blwyddyn.

32 Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio rhaglen o ysgolion arloesol i ddylunio a datblygu'r fframwaith cwricwlwm a gosod y sylfeini ar gyfer newid trwy sicrhau bod gan pob ymarferwr fynediad i ddysgu proffesiynol effeithiol, a'u cefnogi i wireddu'r cwricwlwm newydd. Mae ein cynnig ar gyfer Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol yn cwmpasu hyn ond yn mynd y tu hwnt i ysgolion unigol. Mae ymchwil wedi dangos bod dysgu proffesiynol ar ei fwyaf pwerus pan gaiff ei rannu ar draws ysolion trwy gydweithredu a dysgu cymheiriaid.

33 Mae *Improving Schools in Wales: An OECD perspective* yn amlinellu'r dystiolaeth ryngwladol mai fformiwla cyllido wedi'i ddylunio'n dda, sydd yn cymryd amrywiadau amrywiol ysgolion i ystyriaeth, ydy'r dull mwyaf effeithiol, sefydlog a thryloyw o gyllido ysgolion o'i gymharu â chyllido disgresiwn gweinyddol, sydd yng Nghymru wedi cael ei ddarparu trwy awdurdodau lleol mewn dull sydd yn bennaf heb fod yn atebol. Mae adroddiad OECD yn nodi'r ffaith bod biwrocratiaeth gormodol ac aneffeithlonrwydd yn creu cyfyngiadau gwirioneddol ar y system ysgolion. Mae hyn hefyd yn cael ei ailadrodd gan y Comisiwn ar Ddarparu Llywodraethu Cyhoeddus oedd yn gal w ar symleiddio trefniadau cyllido a ffocws ar gyflawni deilliannau (Llywodraeth Cymru 2014).

34 Mae adroddiad OECD, *Improving Schools in Wales: An OECD perspective*, yn dangos bod ffederasiwn ysgolion yn ddull mwy ffurfiol o ymestyn cydweithredu a hyrwyddo cysylltiadau gwaith agosach (tud. 77).

**Camau y bydd ASCL yn eu cymryd**

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad consortia.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu fformiwla cyllido cenedlaethol sydd yn gyfartal, digonol a theg.

**Camau i Lywodraeth Cymru eu cymryd**

- Ystyried deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol – grwpiau o ysgolion yn cydweithio mewn ffederasiynau meddal i gymryd rolau systemau penodol: addysg athrawon cychwynnol, dysgu proffesiynol parhaus, datblygu arweinyddiaeth, cefnogi ysgolion gwannach yn y system trwy gefnogaeth ac ymchwil a datblygiad ysgol i ysgol.
- Defnyddio'r mesurau effeithlonrwydd a ryddhawyd o'r broses diwygio llywodraeth leol i ddatblygu a gweithredu fformiwla cyllido cenedlaethol ac sydd yn gyfartal ar bwynt cyflenwi, yn ddigonol ac wedi'i bwyso yn briodol i'r myfyrwyr hynny sydd mewn angen mwyaf.

# Elfen Pedwar: Atebolrwydd

## Ein gweledigaeth

Rhwymedigaeth ar unigolyn a chorff ydy atebolwydd i roi cyfrif dros ei weithgareddau, derbyn cyfrifoldeb drostyn nhw a datgelu'r canlyniadau mewn dull tryloyw. Y ffurf uchaf o atebolrwydd ydy atebolrwydd proffesiynol unigolyn am ansawdd ei waith ac i'r bobl y mae'r proffesiwn yn eu gwasanaethu. Mewn system hunanwelliant, credwn bod athrawon ac arweinwyr ysgolion yn asiantwyr eu hatebolrwydd eu hunain.

Tra mai hyn ydy'r ffurf uchaf o atebolrwydd, mae gan y llywodraeth rôl gyfreithiol mewn penderfynu ar fframwaith atebolrwydd cyhoeddus oherwydd bod ysgolion yn sefydliadau wedi'u cyllido'n gyhoeddus ac mae'r llywodraeth yn gywir yn atebol i'r etholaeth am ddeilliannau addysg.

Yn ôl yn 2015, roedd y fframwaith atebolrwydd yn ddryslyd gyda nifer o gyrff gwahanol yn adrodd ar berfformiad ysgolion mewn ffyrdd gwahanol: Estyn, awdurdodau lleol, y consortia a chategoreiddio ysgolion Llywodraeth Cymru. Doedd y systemau adrodd ac atebolrwydd yma ddim bob amser yn cyd-fynd.

Gweithredodd Llywodraeth Cymru yn gyflym yn 2016 i greu fframwaith atebolrwydd glir, main, deallus a sefydlog gyda nifer fechan o nodau uchelgeisiol, yn cynnwys mesur cynnydd wedi'i benderfynu'n genedlaethol i annog gwelliant[35]. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r craidd sefydlog o fesurau yn y fframwaith atebolrwydd cenedlaethol ac mae'n hyderus bod y rhain yn ddigon soffistigedg i gyrraedd casgliadau dilys a dibynadwy am berfformiad ysgol pan fydd yn cael ei harolygu.

Mae yna ddisgwyliad bod cyrff llywodraethu yn datblygu mesurau perfformiad deallus ar gyfer pob blaenoriaeth strategol ysgol ac yn dal arweinwyr i gyfrif am y rhain. Mae'r rhain bellach yn cynnwys mesurau'r llywodraeth ond dydyn nhw ddim wedi'i cyfyngu ganddyn nhw. Mae llywodraethwyr ac arweinwyr yn parchu'r ffarmwaith atebolrwydd allanol ond maen nhw bellach yn llawer mwy uchelgeisiol na'r llywodraeth. Maen nhw'n glir ac yn huawdl am eu gweledigaeth a'r mesurau a fydd yn dangos llwyddiant.

Mewn sawl ysgol, mae arloesi wrth ddefnyddio data agored wedi helpu i rymuso rhieni a'r gymuned.[36] Mae'r ysgolion yma wedi ad-drefnu data cymhleth er mwyn iddo fod yn wirioneddol ddefnyddiol i rieni/gofalwyr ac aelodau eraill o'r gymuned o ran atebolrwydd, llais a dewis. Mae'n ddisgwyliad cynyddol ymysg rhieni a'r gymuned bod ysgolion yn darparu eu data mewn dulliau agored, hygyrch ac ystyrlon.

Mae atebolrwydd yn agwedd o lywodraethu da y system. I arweinwyr ysgolion, atebolrwydd ydy cydnabyddiaeth a thybio cyfrifoldeb dros ddeilliannau ac mae'n cynnwys y rhwymedigaeth i adrodd, esbonio a bod yn atebol dros y deilliannau hynny. Dydy system hunanwelliant ddim yn system sydd yn hunanwasanaethu. Felly, mae arolygu yn canolbwyntio ar atebolrwydd i'r cyhoedd sydd yn defnyddio'r system ac i'r llywodraeth.

O dan brif arolygydd newydd, ymatebodd Estyn i'r diwylliant newydd yma o atebolrwydd trwy ystyried yn weithredol sut beth ydy arolygu mewn system hunanwelliant. Mae Estyn yn glir ei fod yn gweithredu ar ran rhieni, gwleidyddion a'r etholaeth ehangach. Mae'r arolygiaeth yn adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd mewn perthynas ag ansawdd darpariaeth addysgol yng Nghymru.

Mae gan aweinwyr ysgolion a'r corff llywodraethu berthynas 'rhoi cyfrif' gyda'r arolygiaeth, hynny ydy mae'n rhaid iddyn nhw roi cyfrif dros eu gweithredoedd a'u penderfyniadau i sicrhau deilliannau da i bob plentyn a person ifanc yn eu sefydliadau. Mae arweinwyr ysgolion yn rhoi cyfrif yn seiliedig ar eu cynlluniau hunan werthuso a gwelliant. Mae arolygu yn canolbwyntio ar hunan werthusiad a gallu ysgol i wella, ond does yna ddim gofyniad statudol bellach i ddefnyddio ffurf neilltuol o hunan werthuso. Mater i arweinwyr ysgolion ydy penderfynu sut mae ysgol yn gwerthuso ei hun.

Mae adroddiadau arolygon yn barnu pa mor effeithiol y mae arweinwyr ysgolion yn gyrru uchelgais ac yn gwneud darpariaeth yn eu hysgolion i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr a grwpiau o fyfyrwyr yn gwneud cynnydd yn eu dysgu ac yn gadael ysgol gyda chymwysterau da, yn barod am fywyd yn y Gymru fodern ac mewn cymdeithas fyd-eang. Mae arolwg yn dod i gasgliadau am allu ysgol i wella ond does iddo ddim rôl gwelliant. Does iddo ddim rôl chwaith mewn gwneud arfarniadau am brosesau ac eithrio'r prosesau iechyd a diogelwch ac amddiffyn statudol.

## Camau i arweinwyr ysgolion eu cymryd

Perchnogi atebolrwydd. Yn ychwanegol at fesurau atebolrwydd y llywodraeth, diffinio mesurau perfformio sydd yn dangos ydy ysgol yn cyflawni ei gweledigaeth a'i nodau *ei hun* ai peidio. Adeiladu capasiti i ddefnyddio a holi data i greu darlun cyfoethog. Canolbwyntio ar welliant parhaus a gwneud pethau mewn ffordd well.

- Arbrofi gyda methodolegau data agored fel bod eich data o ddefnydd gwirioneddol i rieni/gofalwyr ac aeloda eraill o'r gymuned.

---

35 Mae adroddiad OECD, *Improving Schools in Wales: An OECD perspective,* yn argymell y dylai'r Adran Addysg a Sgiliau nodi nifer fechan o amcanion clir, o flaenoriaeth uchel a mesuradwy ar gyfer gwelliant a dilyn y rhain dros amser. Dylai'r rhain fod yn berthynol i graidd addysg – dysgu – ac fe ddylen nhw fod yn uchelgeisiol a realistig (tud. 128).

36 Open Public Service Network (2013) Empowering Parents, Improving Accountability. http://www.thersa.org/__data/assets/pdf_file/0010/1529848/RSA_OPSN_EmpoweringParentsImprovingAccountability.pdf

- Rhyddhau athrawon o bob ofn, ansicrwydd ac amheuaeth diangen ynghylch arolygon ac/neu'r mythau ynghych yr hyn maen nhw'n gredu y mae arolygwyr eisiau ei weld – adeiladu eu hyder i ganolbwyntuo ar ddatblygu gwybodaeth a sgiliau proffesiynol yn hytrach na diwylliant cydymffurfio cul. Adeiladu diwylliant lle mae athrawon yn ddyfeisgar, yn optimistaidd ac yn llawn gobaith.
- Adeiladu capasiti a datblygu cynllun i ddelio gydag amrywiadau oddi mewn i ysgolion.
- Datblygu dealltwriaeth llywodraethwyr o fesurau atebolrwydd – adeiladu eu capasiti fel asiantwyr atebolrwydd er mwyn iddyn nhw allu eich herio ac adrodd stori perfformiad yr ysgol a meysydd gwelliant yn hyderus.

### Camau i gyfrff llywodraethu eu cymryd

- Datblygu mesurau perfformiad deallus i bob un o flaenoriaethau strategol yr ysgol a dal arweinwyr i gyfrif am y rhain.
- Sicrhau bod data allanol yn cael ei graffu a bod yna ddealltwriaeth sicr o sut y caiff yr ysgol ei meincnodi.

### Camau y bydd ASCL yn eu cymryd

- Gweithio gyda'r llywodraeth i ddatblygu fframwaith atebolrwydd deallus main, deallus a sefydlog, yn cynnwys mesur cynnydd cytun a fydd yn bodoli am dymor y llywodraeth o leiaf.
- Gweithio gyda'r Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus Agored (OPSN) i ddatblygu canllaw ar ddata agored.
- Gweithio gydag Estyn i ddiffinio sysem a fframwaith arolygu sydd yn addas i'r diben mewn system hunanwelliant gyda'r nodweddion wedi'u disgrifio yn y weledigaeth.

### Camau i Lywodraeth Cymru eu cymryd

- Gweithio gyda'r proffesiwn i benderfynu ar fframwaith atebolrwydd deallus main, deallus a sefydlog gyda nifer fechan o nodau uchelgeisiol.
- Gweithio gyda'r arolygiaeth a'r proffesiwn i ddiwygio arolygu ysgolion gan fynegi'r nodweddion dylunio yn y weledigaeth.

# Elfen Pump: Craffu, ymyrraeth a chefnogaeth

## Ein gweledigaeth

Mae'r consortiwm perthnasol yn craffu perfformiad pob ysgol mewn rhanbarth ar unwaith ac yn brydlon erbyn hyn. Gweithiodd y llywodraeth a ddaeth i rym yn 2016 yn gyflym i resymegoli, symleiddio a gwneud trefniadau ar gyfer craffu, ymyrraeth a chefnogaeth yn fwy effeithiol. Cafod y seilweithiau biwrocrataidd, darniog, costus eu symleiddio er budd effeithlonrwydd ac eglurder.

Erbyn hyn mae perfformiad pob ysgol, waeth beth fo'i strwythur yn cael ei goruchwylio gan gyfarwyddwr/wraig y consortiwm perthnasol. Mae pob rhanbarth yn deall ei ysgolion, mae'n fain ac yn effeithiol ac wedi ymrwymo i dryloywder.

Mae'n ofynnol i gyfarwyddwr/wraig pob consortiwm gyhoeddi adroddiad blynyddol yn amlinellu effaith eu strategaeth gwelliant rhanbarthol. Maen nhw'n dal swydd gyhoeddus ac yn atebol i'r cyhoedd. Mae yna ymrwymiad cryf i dryloywder – mae'r system yn barod i agor ei hun i graffu, yn cyhoeddi data agored a 'ffynonellau agored' i'w brosesau, arferion a syniadau.

Mewn system o ymyrraeth cynnar, lle caiff ysgol ei barnu am beidio â darparu ansawdd addysg derbyniol (ar sail safonau a asesir dros amser, dadansoddiad mewn arweinyddiaeth neu lywodraethu ac/neu ddiogelwch myfyrwyr neu staff), mae cyfarwyddwr/wraig y consortiwm yn cyhoeddi hysbysiad o rybudd.

Os nad oes gan yr ysgol y gallu i sicrhau ei gwelliant ei hun, mae cyfarwyddwr/wraig y consortiwm yn ymyrryd. Felly, mae gan gyfarwyddwr/wraig y consortiwm bwerau gweithredol, ac yn wahanol i'r arolygiaeth gall weithredu pwerau ymyrraeth gan gael gwared ar y corff llywodraethu ac/neu ei gwneud yn ofynnol i ysgol weithio mewn partneriaeth gydag ysgol arall a enwir.

Fel rheol mae'r gefnogaeth i ysgolion sydd angen gwneud gwelliannau yn digwydd ar ffurf cefnogaeth ysgol i ysgol wedi'i froceru gan gyfarwyddwr/wraig y consortiwm.[37]

Mewn system lle mae annibyniaeth wedi'i ennill, dydy'r consortia ddim yn ymyrryd mewn ysgolion gyda deilliannau da neu eithriadol. Ond mae gan y consortia hefyd rôl mewn adeiladu capasiti drwy'r Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol yn eu hardal.

Wrth i'r system yma sefydlu ei hun, barnwyd bod llai a llai o ysgolion angen gwelliant na chwaith mesurau arbennig. Lle roedd hynny'n wir, roedd yr ymyrraeth yn gryfach a'r amser gadael yn gyflymach.

Fe wnaeth y system wella.

## Camau i arweinwyr ysgolion eu cymryd

- Adeiladu capasiti aweinyddiaeth system. Gweithio gydag ysgolion eraill yn eich ardal i gytuno ar, a gweithredu dulliau strategol o weithredu i ddelio gyda heriau systematig, fel dysgu proffesiynol, datblygu arweinyddiaeth a chynllunio olyniaeth, rhwydweithiau pynciau a chefnogaeth ysgol i ysgol, os nad ydy'r rhain yn bodoli eto.
- Sicrhau llwyddiant strwythurau wedi'u harwain gan ysgolion sydd yn ymddangos fel y Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol a chonsortia trwy ymgysylltu'n weithredol gyda nhw.

## Camau i gyrff llywodraethu eu cymryd

- Sirchau bod eich sefydliad yn adeiladu capasiti arweinyddiaeth system. Ystyried a ddylai hyn fod yn flaenoriaeth strategol i'ch ysgol.

## Camau y bydd ASCL yn eu cymryd

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r consortia fel strwythurau datblygedig llawn sydd yn ddigon cryf i arwain system hunanwelliant.

## Camau i Lywodraeth Cymru eu cymryd

- Sicrhau bod y consortia wedi'u halinio gyda diwygio llywodraeth leol fel bod yna system wedi'i synergeiddio, meinach a rhesymegol o gefnogaeth a her i ysgolion.

---

37 Mae adroddiad OECD, *Improving Schools in Wales: An OECD perspective,* yn argymell datblygu strategaeth Gymreig ar gyfer cefnogi a chydweithrediad ysgol i ysgol(tudalen 84). Gwelwn bod hyn yn cael ei ddatblygu a'i weithredu trwy'r Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol. Mae hyn yn unol ag argymhelliad OECD ar gyfer pensaernïaeth lle mae ysgolion yn gallu dethol partneriaid mewn awyrgylch o dryloywder, ymwybyddiaeth a chefnogaeth. Ond i ysgolion sydd yn perfformio'n isel credwn y gall cyfarwyddwr/wraig y consortiwm froceru cefnogaeth ysgol i ysgol.

# Elfen Chwech: Arweinyddiaeth a llywodraethu

## Ein gweledigaeth

Camodd arweinwyr ysgolion ymlaen i rolau arweinyddiaeth system wrth iddyn nhw synhwyro tirwedd oedd yn ymddangos gyda'r negeseuon pwerus gan Lywodraeth Cymru ynghylch arweinwyr addysg yn cydweithio mewn system hunanwelliant.

Yn ôl yn 2015, roedd diffyg iaith arweinyddiaeth ar y cyd a naratif am bwysigrwydd arwain y system yn mygu arweinwyr ysgolion yng Nghymru. Dechreuodd arweinwyr ysgolion weithio gyda'i gilydd i ddiffinio ymddygiad arweinyddiaeth lle roedd hynny'n angenrheidiol i symud y system i ardderchog.

Roedd arweinwyr ysgolion yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau i benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer eu sefydliadau eu hunain. Fe wnaethon nhw benderfynu gweithio gyda'i gilydd trwy'r Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol i arwain addysg staff newydd a chyfredol ac ymyrryd yn weithredol i liniaru effaith anfantais. [38] Ond, doedd hyn ddim yn ddigon.

Sylweddolodd arweinwyr ysgolion mai'r unig ffordd y gallai system addysg Cymru neidio i'r lefel nesaf oedd y pwynt lle y daeth y system i ddibynnu ar werthoedd ac ymddygiad ei haddysgwyr i lywio gwelliant parhaus. Fe wnaethon nhw dynnu ar dystiolaeth ryngwladol oedd yn dangos yr angen i'r system symud oddi wrth gyfeiriad canolog (neu 'orfodi digonolrwydd') i 'ryddhau mawredd' yn yr ysgolion eu hunain [39] – gweithio'n gydweithredol i wella ansawdd athrawon yn dod i mewn i'r proffesiwn ac athrawon cyfredol, meithrin dysgu cymheiriaid oddi mewn i ysgolion a rhwng ysgolion, annog arloesi i ddarganfod arferion arwain yn y dyfodol ac yn y pen draw perchnogaeth y proffesiwn o ddeilliannau ac ansawdd addysg.

Ymddangosodd naratif polisi wedi'i rannu oedd yn gosod arweinyddiaeth system a chefnogaeth ysgol i ysgol yng nghanol diwygiadau addysgol.[40] Dechreuodd Cymru edrych y tu hwnt i'r DU i ddysgu oddi wrth arfer gorau rhyngwladol. Dysgodd Cymru oddi wrth amrediad o arferion mewn awdurdodaethau uchel eu perfformiad. Dysgodd Cymru yn enwedig oddi wrth Ontario, Canada, am fodel o'r proffesiwn yn perchnogi cymwysterau a safonau arweinyddiaeth. Felly, gweithiodd arweinwyr yng Nghymru a Lloegr gyda'i gilydd i greu Sefydliad Arweinyddiaeth mewn Addysg wedi'i arwain gan y proffesiwn.

Cafwyd cytuneb ar y cyd y byddai'r Sefydliad Arweinyddiaeth mewn Addysg yn datblygu ac yn hyrwydd0o safonau arweinyddiaeth; achredu a sicrhau ansawdd rhaglenni datblygu aweinyddiaeth;[41] curadu a rhannu tystiolaeth ar wybodaeth proffesiynol ac effeithlonrwydd arweinyddiaeth; hyrwyddo cynllunio olyniaeth arweinyddiaeth; a hwyluso deialog adeiladol rhwng arweinwyr addysg a llunwyr polisi, creu synnwyr cryfach o ymdrech a gweledigaeth ar y cyd.

Mae llywodraethu yn agwedd amlwg o arweinyddiaeth. Yn 2015 doedd llywodraethu ddim yn gyson gryf. Penderfynodd Llywodraeth Cymru adolygu'r fframwaith llywodraethu gan ei wneud yn fwy hyblyg i roi rhyddid i gyrff llywodraethu benderfynu ar eu cyfansoddiad eu hunain er mwyn gallu recriwtio llywodraethwyr gyda'r sgiliau a'r profiadau cywir. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr angen i symud oddi wrth bresgripsiwn canolog wrth benderfynu ar nifer llywodraethwyr a natur cyrff llywodraethu.

Mae yna ddiwylliant cyffredin ymysg cyrff llywodraethu i geisio datblygu a gwella llywodraethu yn barhaus. Mae cydnabyddiaeth eang i bwysigrwydd cyrff llywodraethu gyda'r sgiliau cywir i ddatblygu'r weledigaeth a'r dyhead i ysgol neu grŵp o ysgolion a sicrhau cydbwysedd priodol o gefnogaeth a her. Roedd ymgyrch lwyddiannus yn targedu cynlluniau cyfrifoldeb cymdeithasol i recriwtio llywodraethwyr o'r sectorau addysgol, ariannol a rheoli ehangach yn cefnogi hyn.

Mae pob corff llywodraethu yn cynllunio olyniaeth yn ofalus – fel rheol does yna'r un llywodraethwr yn treulio mwy na dau dymor mewn swydd ar un corff llywodraethu. Mae cyrff llywodraethu fel rheol yn cyflogi clercod proffesiynol, cyflogedig gyda gwybodaeth gadarn o'r gyfraith a dyletswyddau cyrff llywodraethu.

Mae cyrff llywodraethu yn fwy medrus ac effeithiol,yn glir ynghylch eu gweledigaeth ac yn canolbwyntio ar nifer fechan o nodau strategol sydd bwysicaf.

Mae arweinwyr (yn cynnwys llywodraethwyr) yng Nghymru wedi cymryd cam enfawr ymlaen. Mae symud oddi wrth bresgripsiwn canolog wedi rhyddhau proffesiynoldeb, creadigrwydd ac arloesedd. Mae synnwyr cryf o ymdrech ar y cyd yn siapio ac yn gyrru gwelliannau .

---

38 Mae *Qualified for Life* yn rhestru'r rhain fel y camau y dylai arweinwyr eu cymryd (tudalen 21). Ein cynnig ni ydy, tra bod y camau hyn yn bwysig, dydyn nhw ddim yn ddigonol i system hunanwelliant ymddangos yng Nghymru.

39 Barber. M. and Mourshed, M. and Chikioke, C. 2010, *How the World's Most Improved Systems Keep Getting Better,* London, McKinsey & Company

40 Mae hwn yn yrrwr polisi allweddol a nodwyd yn adroddiad OECD: *Improving Schools in Wales: An OECD perspective,* tudalen 84ff.

41 Tra'n bod yn gwerthfawrogi NPQH fel rhaglen achredig, dydyn ni ddim yn credu mai dyma'r unig raglen ddylai fodoli i arweinwyr ysgolion. Fe fydd y Sefydliad Arweinyddiaeth mewn Addysg arfaethedig yn datlbygu llu o raglenni datblygu arweinyddiaeth priodol i arweinwyr ysgolion ar wahanol adegau yn eu gyrfaoedd. Dydyn ni ddim chwaith yn gweld strategaeth datblygu arweinyddiaeth yn dasg i'r llywodraeth – dylai gael ei arwain gan y proffesiwn.

**Camau i aweinwyr ysgolion eu cymryd**

- Wynebu'r her arweinyddiaeth – gweithio ar draws y sector a gydag ysgolion yn lleol i ddechrau datblygu'r strwythurau a'r grwpiau proffesiynol a fydd yn arwain y system.

**Camau i gyrff llywodraethu eu cymryd**

- Adolygu eich corff llywodraethu – os oes angen, comisiynu adolygiad annibynnol o lywodraethu. Ystyried os oes gan y corff llywodraethu y cyfansoddiad cywir, y sgiliau, y nifer a'r profiad i osod cyfeiriad strategol i'r ysgol.
- Sicrhau bod y corff llywodraethu yn glir ynghylch ei weledigaeth ac yn canolbwyntio ar y nifer fechan o nodau strategol sydd bwysicaf.

**Camau y bydd ASCL yn eu cymryd**

- Sefydlu Sefydliad ar gyfer Arweinyddiaeth mewn Addysg wedi'i arwain gan y proffesiwn gyda'r bwriad o:
  - datblygu a hyrwyddo safonau arweinyddiaeth
  - achredu a sicrhau ansawdd rhaglenni datblygu arweinyddiaeth
  - curadu a rhannu tystiolaeth am wybodaeth broffesiynol ac effeithlonrwydd arweinyddiaeth
  - hyrwyddo cynllunio olyniaeth arweinyddiaeth
  - cynnal deialog adeiladol rhwng arweinwyr addysg a llunwyr polisi, creu synnwyr cryfach o ymdrech a gweledigaeth ar y cyd

**Camau i Lywodraeth Cymru eu cymryd**

- Adolygu'r fframwaith llywodraethu a'i gwneud yn fwy hyblyg i roi rhyddid i gyrff llywodraethu benderfynu ar eu cyfansoddiad eu hunain er mwyn iddyn nhw allu recriwtio llywodraethwyr gyda'r sgiliau a'r profiad cywir.
- Symud oddi wrth bresgripsiwn canolog wrth benderfynu ar nifer llywodraethwyr a natur cyrff llywodraethu.

# Ôl-sgript

Fe fydd arwain newid yn golygu cyfeiriad meddwl – dydy ein system addysg ddim yn cynnwys cyfres o dderbyniadau gan y rhai y tu allan i'r proffesiwn, y mae angen inni ymateb iddyn nhw a chael ein cyfyngu ganddyn nhw. Yn hytrach, rhaid i'n harweinyddiaeth fod yn weithredol, angerddol, moesegol, ac wedi'i sbarduno gan ein hymroddiad a'n hymdrechion ar y cyd. Mae angen inni dorri'r 'maglau sydd wedi'u ffurfio gan y meddwl' sydd yn ein clymu i dderbyn credoau neu ddulliau neilltuol o wneud pethau.

Yn ein rhagair fe wnaethom ddweud ein bod eisiau system lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cyflawni. Fe wnaethom nodi cyfres o egwyddorion sydd yn ategu ein glasbrint. Mae'r glasbrint yn ail-ddychmygu addysg yng Nghymru – symudiad oddi wrth bresgripsiwn i system wedi'i harwain gan y proffesiwn sydd wedi'i llywio gan dystiolaeth, yn arloesol a moesegol.

Rhagosodiad canolog y glasbrint ydy na fydd diwygio dwfn a pharhaol ein system addysg yn dod o'r tu allan i'r proffesiwn.

**Leora Cruddas**

Cyfarwyddwraig Polisi ASCL

# Atodiad A: Pensaernïaeth system hunanwelliant yng Nghymru

### Strwythurau arfaethedig wedi'u harwain gan y proffesiwn

*Galluogi'r proffesiwn i wella dysgu proffesiynol, arwain y system a siarad yn awdurdodol gyda'r llywodraeth.*

**Cynghreiriau Dysgu Proffesiynol**: Grwpiau o ysgolion sydd yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu addysg proffesiynol o ansawdd uchel i staff ysgol newydd a phrofiadol. Wedi'u harwain fel rheol gan ysgol eithriadol, mae yna grŵp o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffederasiwn meddal gydag ysgolion eraill a phartneriaethau strategol fel sefydliadau addysg uwch. Mae ganddyn nhw set craidd o swyddogaethau sydd yn cynnwys addysg athrawon cychwynnol, dysgu proffesiynol parhaus, datblygu arweinyddiaeth, cefnogi ysgolion gwannach yn y system trwy gefnogaeth ysgol i ysgol ac ymchwil a datblygiad – unwaith eto mewn partneriaeth gyda sefydliad addysg uwch. Diben y pump swyddogaeth craidd yma ydy darparu anogaeth a phwrpas pwerus ar gyfer partneriaeth ddofn rhwng ac ymysg ysgolion.

**Sefydliad ar gyfer Arweinyddiaeth mewn Addysg**: Wedi'i arwain gan fwrdd wedi'i ethol gan gymheiriaid, diben y Sefydliad Arweinyddiaeth ydy bod yn gorff cenedlaethol dan arweiniad y proffesiwn yn gyfrifol am osod safonau penaethiaid ac arweinyddiaeth a thrwyddedu llu o raglenni arweinyddiaeth achrededig. Rhagwelir y bydd y sefydliad yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr.

### Rheoliad arolygu a thystiolaeth

*Yn annibynol o'r proffesiwn a'r llywodraeth*

**Rheoleiddiwr cymwysterau**: Corff annibynnol yn gyfrifol am sicrhau cymwysterau o'r radd flaenaf ac sy'n gosod y safonau i gyrff dyfarnu eu cwrdd wrth iddyn nhw ddylunio, darparu a dyfarnu cymwysterau wedi'u rheoleiddio. Mae'r prif reoleiddiwr yn gweithio gyda'r llywodraeth a'r proffesiwn i ddarparu diwygiadau cymwysterau.

**Arolygiaeth (Estyn)**: Corff y Goron, mae'r arolygiaeth yn gweithredu ar ran rhieni a gwleidyddion. Mae'r arolygiaeth yn adrodd yn uniongyrchiol i'r Senedd mewn perthynas ag ansawdd darpariaeth addysg.

**Canolfan Dystiolaeth ar gyfer Addysg**: Mae'n syntheseiddio ac yn dehongli ymchwil a thystiolaeth ac yn cynghori llywodraeth, yn cynnwys Llywodraeth Cymru ar bolisi yn seiliedig ar dystiolaeth a'r proffesiwn ar arfer yn seiliedig ar dystiolaeth.

**Comisiwn annibynniol ar gyfer adolygu'r cwricwlwm**: Corff hyd braich yn darparu arweinyddiaeth o'r prosesau diwygio a'r trefniadau cwricwlwm ac asesu a datbygu argymhellion Donaldson. Cynrychiolir arweinyddion ysgolion, llywodraethwyr, athrawon, rhieni, diwydiant a gwleidyddion ar y comisiwn.

**Cyngor Gweithlu Addysg Cymru**: Cofrestru a rheoleiddio'r gweithlu ysgolion ac AB yng Nghymru. Bwriedir sefydlu Bwrdd Achredu Addysg Athrawon oddi mewn i'r EWC – gallai'r corff yma achredu darparwyr addysg athrawon cychwynnol a dynodi canolfannau o ragoriaeth addysgol

### Craffu, ymyrraeth a chefnogaeth

*Yr haen ganol rhwng darpariaeth addysg a'r llywodraeth.*

**Consortia**: Gyda chyrff llywodraethu o benaethiaid a chynrychiolwyr wedi'u hethol yn ddemocrataidd, mae cyfarwyddwyr Consortia yn gyfrifol am graffu, a lle mae angen, ymyrryd ym mhob ysgol yn yr ardal. Y corff llywodraethu sydd yn penodi cyfarwyddwr/wraig y consortiwm

### Llywodraeth

*Yn atebol i'r etholaeth – gosod y fframwaith polisi ac yn sicrhau safonau uchel o addysg, sicrhau bod y system yn gwasanaethu pawb yr un mor deg*

**Gweinidog Addysg**: Yr uwch ddeiliad swydd gwleidyddol yn gyfrifol am waith yr Adran Addysg a Sgiliau yng Nghymru.

**Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Addysg a Sgiliau**: Y gwas sifil uchaf yn rhedeg adran o ddydd i ddydd

Association of School and College Leaders
130 Regent Road, Leicester LE1 7PG
0116 299 1122
blue.print@ascl.org.uk
www.ascl.org.uk

Medi 2015